Ysgol Gynradd Gorslas,
Heol Y Llew Du,
Gorslas,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin.
SA14 6RS

Pennaeth Headteacher **Mrs B. Owen (B.Ed)**
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mrs A Price (B.Ed)
☎ Tele (01269)842929/07507095021
email:beverley.owen@gorslas.ysgolccc.cymru

Gorslas Primary School,
Black Lion Road,
Gorslas,
Llanelli,
Carmarthenshire.
SA14 6RS

◆◆◆◆◆◆◆◆◆◆◆◆◆◆

Paratoadau ar waith i agor yr ysgol ar gyfer "Diwrnodau Cyswllt"

Annwyl Rieni/ Warchodwyr

Yn gyntaf ga'i ddiolch yn fawr am y cydweithio arbennig yn ystod y tri mis diwethaf. Yn sicr, mae'r amser gofidus a heriol yma i ni gyd yn dal i barhau wrth i ni gynllunio ar gyfer agor yr ysgol ar Fehefin 29ain 2020 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ond er gwaetha'r heriau, rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld y plant yn dod yn ôl i fywyd ysgol, ond bydd yn wahanol i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag.

Rhwng 29/6/20 a'r 24/7/20 bydd cyfnod treialu system 'Check in'. Ni fydd pawb yn gallu dod yr un pryd nac am yr wythnos gyfan oherwydd y cyfyngiadau sydd wedi eu rhoi ar gapasiti'r ysgol. Gallaf eich sircrhau mai yr hyn sydd yn llywio'r cwbl yw diogelwch y plant, y staff a chwi rhieni. Mae'n bwysig i nodi yma na allwn gael gwared o'r risg, gweler hwn yn nghanllawiau Llywodraeth Cymru' *Mewn ysgolion cynradd, rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol disgwyl i ddysgwyr gadw pellter cymdeithasol cyson o ddau fetr.* Ond gallaf sicrhau bod ein trefniadau diogelwch yn seiliedig ar asesiadau risg trylwyr gan yr Awdurdod ac fe fyddant yn gwirio bod systemau yn eu lle cyn ail agor yr ysgol.

Mae'r trefniadau sydd ar waith yn cadw'n gadarn at reolau a chanllawiau Llywodraeth Cymru a chyngor Awdurdod Addysg y Sir. **Bydd mwy o ganllawiau yn ystod yr wythnos yn amlinellu manylder ein prosesau cynllunio wrth ddilyn y canllawiau. Byddwn yn cadarnhau mwy o wybodaeth am amseroedd cychwyn a chau a threfniadau ar gyfer pob grwpiau yn ôl blwyddyn**

Byddwn yn gweithredu'n bwrpasol ac yn greadigol er mwyn darparu'r cymorth sydd angen ar ein disgyblion. Yn ystod y sesiynnau 'check in' bydd pwyslais ar drafodaethau dysgu o bell, datrys problemau sydd wedi codi ac wrth gwrs lles ein disgyblion a fydd yn parhau drwy dymor yr Hydref. Bydd cyfuniad o ddysgu 'yn yr ysgol' a 'dysgu o bellter'. Rwy'n ymwybodol bod llawer ohonoch yn ansicr ynglyn â'r penderfyniad o ran anfon eich plentyn yn ol i'r ysgol neu beidio. Fel staff, yr ydym yn parchu eich penderfyniad beth bynnag y bydd.

- **Gofal Plant** –Bydd gofal plant ar gyfer plant Gweithwyr Allweddol sydd wedi mynychu yr ysgolion Hwb rhwng 23/3/20 i'r 26/6/20 – a phlant staff yr ysgol sy'n gorfod dychwelyd nôl i'r gwaith ar y 29/6/20. Bydd hwn ar gael yn yr ysgol rhwng 8.00yb a 3.30yp o ddydd Llun i Ddydd Gwener.
- **Bydd sesiynnau diwrnod cyfan ar gyfer 'Check in' i flwyddyn 3,4,5 a 6 yn ystod y bythefnos gyntaf o 9yb i 3 o'r gloch o ddydd Llun i Ddydd Iau. Bydd y sesiynnau yma ar gyfer un blwyddyn ysgol ar y tro ar ddiwrnodau gwahanol.**
- Bydd y Cyfnod Sylfaen sef dosbarth Mrs Price, Mrs Thomas a Miss Lewis yn mynychu yn y drydedd wythnos.
- Bydd y plant yn cael eu dysgu mewn grwpiau bach
- Bydd amser cyrraedd a gadael yn wahanol i grwpiau o blant
- Bydd yr athrawon yn parhau i ddysgu o bell.
- Ni fydd Clwb Brecwast ac ni fydd cinio yn cael ei baratoi. Bydd angen i bob plentyn i ddod a phecyn bwyd.
- Ni fydd y disgyblion y gallu dod ag eitemau o'r cartref ond am eu cinio.
- Bydd system un ffordd i fewn ac allan o'r ysgol yn cael ei weithredu a bydd arwyddion clir ar gyfer pawb.

- Bydd y plant yn golchi eu dwylo yn syth ar ôl cyrraedd yr ysgol ac yn gyson yn ystod y dydd.
- Bydd offer PPE ar gael yn yr ysgol a bydd pob aelod staff wedi eu briffio o ran hylendid a chadw pellter cymdeithasol.
- Ni fydd angen i'r disgyblion wisgo gwisg ysgol. Y cyngor yw i olchi'r dillad yn ddyddiol ar ôl i'ch plentyn adael yr ysgol.
- Bydd y disgyblion yn treulio tipyn o amser tu allan yn yr awyr agored ac yn gwneud gweithgareddau, felly bydd dillad ymarfer corff a trainers yn addas.
- Ni fydd rhieni yn gallu dod i fewn i'r adeilad.

Byddwn yn cynhyrchu fidio a'i rannu ar Drydar a Facebook i leddfu unrhyw bryderon er mwyn cyfathrebu a rhannu'r trefniadau gyda chi a'r plant. Rwy'n hyderus bod y paratoadau sy'n cael eu gweithredu yn mynd i hwyluso'r broses helpu eich pryderon o dderbyn eich plentyn yn ôl i'r ysgol mewn ffordd mor ddiogel â phosib.

Bydd mwy o fanylion pendant yn dilyn o ran trefniadau dod yn ôl i'r ysgol.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod yr amser anodd yma.

Cofion cynnes ac arhoswch yn ddiogel.

Beverley Owen.